Department for Business Innovation & Skills

# YMGYNGHORIAD DIWYGIO DEDDF DATBLYGU DIWYDIANNOL 1982

## Ymateb y Llywodraeth

MEHEFIN 2012

# Cynnwys

**Cynnwys** ........................................................................ **2**

**Cyflwyniad** ........................................................................ **3**

**Map Ardaloedd a Gynorthwyir (adran 7 yr IDA)** ........................................................................ **4**

Cwestiwn 1: A ddylid dileu’r ffaith y cynhwysir Gogledd Iwerddon yn awtomatig fel Ardal a Gynorthwyir yn y Deyrnas Unedig? ........................................................................ 4

Ymateb y Llywodraeth ........................................................................ 5

Cwestiwn 2: O ran y trothwy fesul prosiect, mae’n rhaid, o fynd y tu hwnt iddo, sicrhau cynnig ar gyfer hynny yn Nhŷ’r Cyffredin.  Pa un o’r dewisiadau a restrir y dylid ei fabwysiadu? ................ 6

Cwestiwn 3: A ddylid dileu’r gallu i ddarparu gwarantau arian tramor fesul prosiect heb uchafswm ariannol ac yn lle hynny eu halinio â’r terfyn sterling diwygiedig? ................................ 7

Ymateb y Llywodraeth ........................................................................ 7

Cwestiwn 4: A ddylid diweddaru’r IDA i gynnwys telathrebu a band eang yn y rhestr o wasanaethau sylfaenol? ........................................................................ 7

Ymateb y Llywodraeth ........................................................................ 7

Cwestiwn 5: A ddylid newid yr IDA i ehangu pwerau’r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â chaffael a datblygu tir a gaffaelir heblaw dan yr IDA neu Ddeddf Gwaith Lleol 1972? ................. 7

Ymateb y Llywodraeth ........................................................................ 8

**Y Camau Nesaf** ........................................................................ **8**

**Rhestr o Ymatebwyr** ........................................................................ **9**

# Cyflwyniad

1. Bu'r ymgynghoriad ynghylch diwygio Deddf Datblygu Diwydiannol 1982 (IDA) ar y gweill o 20 Gorffennaf 2011 hyd 2 Tachwedd 2011. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd casglu safbwyntiau ynghylch a ddylid diweddaru nifer o ofynion yn yr IDA, a fu mewn grym er 1982, er mwyn adlewyrchu'r realiti economaidd cyfredol.

2. Yn ogystal â'r ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law, hysbyswyd Ymateb y Llywodraeth gan drafodaethau a gynhaliodd Gweindogion o'r Adran Fusnes, Arloesedd a Sgiliau gyda Gweinyddiaethau Datganoledig, swyddfeydd tiriogaethol ac Adrannau eraill y Llywodraeth.

3. Derbyniwyd ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad o Ogledd Iwerddon (19) a Lloegr (12) – ceir rhestr lawn ar ddiwedd y ddogfen hon. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion ar gyfer pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad ynghyd ag Ymateb y Llywodraeth.

# Map Ardaloedd a Gynorthwyir (adran 7 yr IDA)

## Cwestiwn 1: A ddylid dileu'r ffaith y cynhwysir Gogledd Iwerddon yn awtomatig fel Ardal a Gynorthwyir[1] yn y Deyrnas Unedig?

4. Ar y cyfan roedd yr 19 ymatebydd o Ogledd Iwerddon yn erbyn dileu'r ffaith y cynhwysir Gogledd Iwerddon yn awtomatig fel Ardal a Gynorthwyir o'r IDA, gyda rhai'n gwrthwynebu'r newid arfaethedig yn gryf iawn (2 wnaeth ddim mynegi barn). Roedd y 12 ymatebydd o Loegr yn gyffredinol o blaid y dileu, fel y gellid rhoi ystyriaeth gyfartal i'r Deyrnas Unedig gyfan ar sail tystiolaeth ac angen a brofir yn ystadegol.

5. Nododd ymatebwyr o Ogledd Iwerddon yr hyn a ddisgrifid ganddynt fel y sefyllfa unigryw yng Ngogledd Iwerddon a'r heriau sylweddol sy'n parhau yno yn wleidyddol ac economaidd.  Dywedodd rhai nad oedd y trawsnewid a ddisgwylid yn sgil ymyrraeth yr UE wedi ymddangos hyd yma a bod Gogledd Iwerddon wedi methu cydgyfeirio â gweddill y DU er gwaethaf y ffaith fod dwyster Cymorth Rhanbarthol yn uwch yno ac na fyddai yna gydgyfeirio ystyrlon o unrhyw fath gyda chyfartaledd y DU erbyn 2030 oni bai fod rhyw bolisïau newydd radicalaidd yn cael eu cyflwyno.

6. Cyfeiriodd rhai'n benodol at ddwy her fawr sy'n wynebu Gogledd Iwerddon gan ddweud fod y sefyllfa'n cael ei hystumio'n arw gan faint a dibyniaeth ar y sector cyhoeddus ac y byddai'r agenda diwygio lles yn cael effaith sylweddol ar yr economi leol.  Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at gyfradd uwch y boblogaeth o oed gweithio sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra a oedd eisoes wedi gwaethygu yn sgil yr arafu yn y sector preifat.

7. Gan eraill tynnwyd sylw at faterion megis lleoliad ymylol Gogledd Iwerddon, goblygiadau ei ffin â Gweriniaeth Iwerddon (yn arbennig fod y dreth gorfforaethol yn is yn y Weriniaeth), arwyddocâd yr ardaloedd teithio i'r gwaith (e.e. ardaloedd o amgylch Belfast) yn ogystal â phwysigrwydd defnyddio cymorth rhanbarthol i ddenu busnesau i leoli ar draws Gogledd Iwerddon.

8. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth y DU, yn hytrach na thynnu hawl awtomatig Gogledd Iwerddon o'r IDA, ganolbwyntio ei hymdrechion ar archwilio gyda'r Comisiwn Ewropeaidd sut gellid ystyried Gogledd Iwerddon fel achos arbennig, fel y gwnaed gyda Chanllawiau Cymorth Rhanbarthol (RAG) blaenorol. Awgrymodd eraill y byddai'n rhy fuan penderfynu ynghylch dileu statws Gogledd Iwerddon fel Ardal a Gynorthwyir o'r IDA cyn canlyniad yr ymgynghoriad ar ailgydbwyso economi Gogledd Iwerddon.

---

[1] http://www.bis.gov.uk/policies/economic-development/assisted-areas

9. Gan ymatebwyr o Loegr, gwnaed y pwynt y byddai ardaloedd eraill yn y DU yn debygol o golli allan neu y byddai llai o ardaloedd yn gymwys ar ôl 2013 petai Gogledd Iwerddon yn parhau i gael ei chynnwys yn awtomatig fel Ardal a Gynorthwyir; ac y gallai hyn ddigwydd hyd yn oed petaent, ar seiliau economaidd, yn ardaloedd "llai ffyniannus" nag ardaloedd yng Ngogledd Iwerddon. Nodwyd egwyddor gwneud y mwyaf o hyblygrwydd er mwyn targedu adnoddau cyfyngedig at yr ardaloedd â'r mwyaf o angen cymorth, a hefyd y tebygrwydd wedi 2013 y bydd maint y boblogaeth yn y DU yn gyffredinol y gellir ei defnyddio ar gyfer ardaloedd sydd "ar ei hôl hi" yn llai.  Rheswm arall a roddwyd dros dargedu ymdriniaeth Ardaloedd a Gynorthwyir ar lefel is-ranbarthol ledled y DU ac yn arbennig yng Ngogledd Iwerddon oedd fod yna ardaloedd economaidd gweithredol gydag amgylchiadau a lefelau angen sy'n sylweddol wahanol o un ardal is-ranbarthol i ardal is-ranbarthol arall.

## Ymateb y Llywodraeth

10. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen i ddileu cynnwys Gogledd Iwerddon yn awtomatig 100% fel Ardal a Gynorthwyir.  Mae hyrwyddo datblygiad economaidd ardaloedd neilltuol dan anfantais trwy statws arbennig fel Ardal a Gynorthwyir yn rhan bwysig o strategaeth y Llywodraeth i fynd i'r afael â gwahaniaethau rhanbarthol.  Y mae'r statws hwn, fodd bynnag, yn gyfyngedig a rhaid ei ganolbwyntio ar ardaloedd lle gwneir yr effaith fwyaf.  Os na fydd y Llywodraeth yn rhoi sylw i'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon yn y dyfodol agos, bydd yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd fydd yna wrth aildrafod y map newydd o Ardaloedd a Gynorthwyir.  Bydd y map newydd yn dod i rym yn 2014.  Mae'r sefyllfa hon yn cael ei dwysáu oherwydd bod y Comisiwn Ewropeaidd yn debyg o geisio lleihau cyfanswm y boblogaeth sy'n gallu preswylio mewn Ardal a Gynorthwyir (sef 23.9% ar hyn o bryd ar draws y DU) yn unol ag egwyddorion llai o gymorth a chymorth wedi'i dargedu'n well.

11. Mae'r ffaith fod Gogledd Iwerddon â statws Ardal a Gynorthwyir 100% yn dyddio'n ôl cyn IDA 1982, gan i hyn gael ei gynnwys yn Neddf Diwydiant 1972.  Roedd yn adlewyrchu'r amgylchiadau gwleidyddol ar y pryd a rhoddwyd yr un driniaeth i Ogledd Iwerddon yn yr IDA yn 1982.  Cydnabyddir sefyllfa unigryw Gogledd Iwerddon yn y gwaith a wneir gan Lywodraeth y DU gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i "ailgydbwyso'r economi"[2].  Fodd bynnag, nid oes amheuaeth na fu gwelliant yn sefyllfa wleidyddol Gogledd Iwerddon er 1982 ac ar sail dadansoddiadau economaidd ac ystadegol, gan gynnwys ystyried tystiolaeth a ddarparwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn, y casgliad yw y dylid dileu hawl awtomatig Gogledd Iwerddon i gael ei chynnwys 100% fel Ardal a Gynorthwyir o'r IDA.

12. Yn ôl amserlen bresennol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer cyhoeddi Canllawiau Cymorth Rhanbarthol ar gyfer 2014-20, a fydd yn pennu'r rheolau ar gyfer llunio'r map newydd, rhagwelir y bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori ynghylch map newydd yr Ardaloedd a Gynorthwyir yn ystod 2013.  Yna bydd angen cytuno ar y map gyda'r Comisiwn cyn iddo ddod i rym yn 2014.

---

[2] *Rebalancing the Northern Ireland Economy:  A summary of consultation response*, HMT Rhagfyr 2011

13. O ddileu Statws Gogledd Iwerddon fel Ardal a Gynorthwyir yn awtomatig, ni fyddai hynny ynddo'i hun yn golygu y byddai Gogledd Iwerddon yn colli ei hymdriniaeth 100% dan y Canllawiau Cymorth Rhanbarthol a'r map newydd o Ardaloedd a Gynorthwyir. Bydd angen i Lywodraeth y DU, wrth ymgynghori ynghylch y map newydd o Ardaloedd a Gynorthwyir, roi cyfrif am ffactorau sy'n neilltuol i Ogledd Iwerddon ac mae'n gweithio gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, ynghyd ag Aelod-wladwriaethau eraill, i sicrhau y bydd yr RAG newydd yn caniatáu hyblygrwydd priodol.

14. Petai ardaloedd o Ogledd Iwerddon na fyddant yn cael eu cynnwys dan y map newydd, ni fyddai hyn yn cael effaith uniongyrchol ar faint o Gymorth Rhanbarthol fyddai ar gael yng Ngogledd Iwerddon - a byddai cymorth o'r fath ar gael o hyd i gymell buddsoddi sy'n cefnogi twf economaidd mewn ardaloedd o angen. At hynny, petai yna fusnesau nad oeddynt bellach yn cael eu cynnwys, gallasent barhau i fod yn gymwys ar gyfer mathau eraill o gymorth, gan gynnwys ymchwil a datblygu, cymorth at hyfforddiant a chymorth buddsoddi ar gyfer mentrau SME.

15. Nododd nifer o ymatebwyr y gallai fod yn rhy fuan i ddod i benderfyniad ynghylch dileu statws Ardal a Gynorthwyir yn awtomatig Gogledd Iwerddon tra bo gwaith yn parhau ar ailgydbwyso economi Gogledd Iwerddon, dan arweiniad Trysorlys EM. Ar 25 Mehefin cynhaliwyd trydydd cyfarfod y Gweithgor Gweinidogol ar *Rebalancing the Northern Ireland economy,* rhwng gweinidogion o Lywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Byddant yn cyfarfod eto ym mis Medi. Mae'r grŵp yn ystyried nifer o ddewisiadau gan gynnwys y potensial ar gyfer trefn dreth gorfforaethol wedi'i datganoli a gwneir rhagor o waith cyn dod i benderfyniad [1]. Rhoddir ystyriaeth i waith y grŵp hwn a'i nodau wrth fwrw ymlaen â chynlluniau i lunio'r map newydd o Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer 2014-20.

16. Dywedodd nifer o ymatebwyr o Ogledd Iwerddon y dylid bod wedi cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y cam ynghynghorol. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad, ni wneir y penderfyniad ynghylch sefyllfa'r Ardaloedd a Gynorthwyir ar gyfer Gogledd Iwerddon tan ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus ac yna mewn cytundeb â'r Comisiwn Ewropeaidd. Fel rhan o'r broses honno y cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## Cwestiwn 2: O ran y trothwy fesul prosiect, mae'n rhaid, o fynd y tu hwnt iddo, sicrhau cynnig ar gyfer hynny yn Nhŷ'r Cyffredin. Pa un o'r dewisiadau a restrir y dylid ei fabwysiadu?

## Cwestiwn 3: A ddylid dileu'r gallu i ddarparu gwarantau arian tramor fesul prosiect heb uchafswm ariannol ac yn lle hynny eu halinio â'r terfyn sterling diwygiedig?

17. O ran Cwestiwn 2, o'r rhai a wnaeth sylwadau penodol, un ymatebydd yn unig oedd eisiau gadael y trothwy heb ei newid; fel arall roedd cefnogaeth gref i'r dewis a ffefrir, sef codi'r swm i £50 miliwn gan adlewyrchu'r cynnydd yn GDP y DU rhwng 1982 a 2011.

18. O ran Cwestiwn 3, roedd y rhai a wnaeth sylwadau penodol yn gefnogol gan ddweud y dylai'r trothwy diwygiedig fesul prosiect fod yn gymwys ni waeth pa arian a ddefnyddir ac y byddai "yn cynyddu rheolaeth Seneddol a lleihau'r risg o wneud penderfyniadau is-optimaidd". Gan rai cafwyd y sylw cyffredinol eu bod yn fodlon, ar y dybiaeth na fyddai'n cael unrhyw effaith andwyol ar allu busnesau yng Ngogledd Iwerddon i gael mynediad at gymorth ariannol uniongyrchol.

### Ymateb y Llywodraeth

19. Mae'r Llywodraeth yn falch fod y cynigion hyn wedi cael cefnogaeth gref ac mae'n bwriadu codi'r terfyn a chael gwared ar y gwahaniaeth rhwng cymorth a delir ar ffurf trafodion sterling neu mewn arian tramor wrth osod terfynau ariannol.

## Cwestiwn 4: A ddylid diweddaru'r IDA i gynnwys telathrebu a band eang yn y rhestr o wasanaethau sylfaenol?

20. Ymatebodd y mwyafrif i'r cwestiwn hwn ac roedd cefnogaeth gref i gynnwys telathrebu a band eang yn y rhestr o wasanaethau sylfaenol. Roedd rhai yn cydnabod yn benodol mor bwysig yw'r sectorau hyn i lwyddiant yn y dyfodol, yn enwedig y cyfraniad i gynhyrchiant a chaniatáu ar gyfer lleihau defnydd carbon. Awgrymodd un ymatebydd y dylid ehangu'r rhestr er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth i'r dyfodol trwy gynnwys amddiffyn rhag/lliniaru effaith llifogydd ac ynni cynaliadwy.

### Ymateb y Llywodraeth

21. Croesawodd y Llywodraeth y gefnogaeth i'r newidiadau hyn.  Nid yw'r rhestr o "wasanaethau sylfaenol" yn yr IDA yn hollgynhwysfawr ac ni ddylai'r diweddariad arfaethedig i'r Ddeddf newid y sefyllfa hon.

## Cwestiwn 5: A ddylid newid yr IDA i ehangu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â chaffael a datblygu tir a gaffaelir heblaw dan yr IDA neu Ddeddf Gwaith Lleol 1972?

22. Roedd cytundeb cyffredinol fod hon yn ffordd briodol o fwrw ymlaen er mwyn galluogi'r Llywodraeth i sicrhau rheolaeth briodol ar asedau tir a rhwymedigaethau er mwyn cynorthwyo i wireddu gwerth llawn tir o'r fath.

23. Roedd yna rai sylwadau penodol ynghylch sut gellid defnyddio'r grym hwn. Er enghraifft, y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i awdurdodau lleol o ran sut a phryd y gellid defnyddio'r asedau hyn er dibenion datblygu economaidd.  Hefyd, y dylid ystyried

llwybrau eraill, megis perchnogaeth leol, er mwyn datgloi datblygiadau o'r fath yn enwedig ble gallai asedau RDA fod wedi'u caffael neu eu datblygu gan ddefnyddio arian cyfatebol gan Awdurdodau Lleol.  Ar drywydd tebyg, y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gysylltu â Chynulliad Gogledd Iwerddon a'r Llywodraethau Rhanbarthol er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i anghenion lleol.  Roedd eraill o'r farn y dylid cyfyngu'r grym i gyn asedau RDA, nid y rhai a oedd yn eiddo i bob corff cyhoeddus, ac roedd ymatebydd arall o'r farn y dylai hyn ddigwydd fesul prosiect.

### Ymateb y Llywodraeth

24. Yn gyffredinol, cafwyd dealltwriaeth glir o'r ysgogiad dros newid pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i reoli tir sy'n eiddo i'r Llywodraeth yn y ffordd fwyaf priodol. Fodd bynnag, mae pwerau newydd dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 (a Deddf Lleoliaeth 2011) yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddal ati i ddatblygu prosiectau a gwblhawyd yn rhannol felly mae'n bosib na fydd angen newidiadau pellach.  Beth bynnag, fe fydd y Llywodraeth yn gweithio gyda phartneriaid lleol er mwyn sicrhau y ceir y budd mwyaf o'r asedau.  Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth yn ystyried y byddai'n ymarferol nac yn briodol trosglwyddo perchnogaeth i eraill.

# Y Camau Nesaf

25. Bydd y newidiadau i'r IDA yn digwydd mewn dau gam. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Offeryn Statudol (deddfwriaeth eilaidd) i ddileu'r ffaith y cynhwysir Gogledd Iwerddon yn awtomatig 100% yn yr Hydref gan ddefnyddio adran 2(2) Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn sail ddeddfwriaethol.  Caniateir hyn gan fod y diwygiad yn ymwneud â gweithgareddau'n gysylltiedig â'r UE.

26. Nid yw'n bosib defnyddio deddfwriaeth eilaidd i wneud newidiadau eraill gan nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau ar lefel yr UE.  Felly bydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth pryd bynnag y bydd amser Seneddol yn caniatáu hynny.

# Rhestr o Ymatebwyr

1. Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon
2. Cyngor Bwrdeistref Newtonabbey
3. Cyngor Bwrdeistref Castlereagh
4. Pwyllgor Cynulliad Gogledd Iwerddon dros Fenter, Masnach a Buddsoddi
5. Invest Gogledd Iwerddon
6. Cyngor Bwrdeistref Coleraine
7. Cyngor Dosbarth Moyle
8. Cyngor Dinas Belfast
9. CBI (Gogledd Iwerddon)
10. Cyngor Dinas Lisburn
11. Cyngor Sir Norfolk
12. Sefydliad Elcena Jeffers
13. Cyngor Bwrdeistref Ballymena
14. Bombardier Aerospace, Belfast
15. Cymdeithas Llywodraeth Leol Gogledd Iwerddon
16. Cyngor Bwrdeistref Larne
17. Cyngor Bwrdeistref Antrim
18. Cyngor Middlesbrough
19. Cyngor Cernyw
20. Cyngor Wakefield
21. Cyngor Canol Swydd Bedford
22. Disability Action
23. Cyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerhirfryn
24. IoD (Is-adran Gogledd Iwerddon)
25. Cyngor Swydd Hertford
26. Grŵp Llywodraeth Leol
27. Cymdeithas Cynghorau Gogledd-ddwyrain Lloegr
28. Awdurdod Llundain Fwyaf
29. Partneriaeth Menter Leol Humber
30. Cyngor Bwrdeistref Luton
31. Grŵp Cynghori Economaidd, Gogledd Iwerddon

© Hawlfraint y Goron 2012

Gallwch ailddefnyddio’r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored. Ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence, ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael ar ein gwefan hefyd yn www.bis.gov.uk

Anfonwch unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hawn at:

Yr Adran Fusnes, Arloesedd a Sgiliau
1 Victoria Street
Llundain SW1H 0ET
Ffôn: 020 7215 5000

Os hoffech gael y cyhoeddiad ar ffurf arall, e-bostiwch enquiries@bis.gsi.gov.uk, neu ffoniwch 020 7215 5000.

**URN 12/761**